

## Rhan 4.4. - Rheolau Gweithdrefn y Weithrediaeth

### 1.1 Pwy gaiff wneud penderfyniadau gweithredol?

Mae'r trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gweithredol wedi'u nodi yn Rhan 3 o'r cyfansoddiad hwn. Os nad ydynt yn cael eu cyflwyno yno, gall yr Arweinydd benderfynu sut y maent i gael eu hymarfer. Yn y naill achos neu'r llall, gall y trefniadau neu'r arweinydd ddarparu i swyddogaethau gweithredol gael eu cyflawni gan:

- i) y Bwrdd Gweithredol yn ei grynswth;
- ii) pwyllgor o'r Bwrdd Gweithredol;
- iii) aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol;
- iv) swyddog;
- v) trefniadau ar y cyd; neu
- vi) awdurdod lleol arall.

### 1.2 Cynllun Dirprwyo

Yng nghyfarfod blynyddol cyntaf y Cyngor yn dilyn etholiad y Cyngor, bydd y Cyngor yn cymeradwyo cofnod ysgrifenedig o ddirprwyaethau a wnaed a all gynnwys dirprwyo gan yr Arweinydd i'w cynnwys yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn. Byddant yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn sydd i ddod:

- (i) enwau, cyfeiriadau ac etholaethau'r bobl a benodwyd i'r Bwrdd Gweithredol gan yr Arweinydd;
- (ii) chwmpas unrhyw awdurdod a ddirprwywyd i aelodau gweithredol yn unigol, gan gynnwys manylion am y cyfyngiadau ar eu hawdurdod;
- (iii) cylch gorchwyl a chyfansoddiad pa Bwyllgorau Bwrdd Gweithredol bynnag y bydd yr Arweinydd yn eu penodi, os o gwbl, ac enwau Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a benodir iddynt;
- (iv) natur a chwmpas unrhyw ddirprwyo ar swyddogaethau gweithredol i bwyllgorau rhanbarthol, unrhyw awdurdod arall neu unrhyw gytundebau ar y cyd ac enwau'r aelodau gweithredol hynny a benodwyd i unrhyw bwyllgor ar y cyd am y flwyddyn i ddod; a
- (v) natur a chwmpas unrhyw ddirprwyo i swyddogion gyda manylion am unrhyw gyfyngu ar y dirprwyo hwnnw, a theitl y swyddog y gwneir y dirprwyo iddo.

### **1.3 Is-ddirprwyo swyddogaethau gweithredol**

- (a) Lle bo'r Bwrdd Gweithredol, pwyllgor o'r Bwrdd Gweithredol neu aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am swyddogaeth weithredol, gallant ddirprwyo ymhellach trwy wneud trefniadau ar y cyd neu trwy ddirprwyo i swyddog.
- (b) Oni bai fod y Cyngor yn cyfarwyddo fel arall, os yw'r Arweinydd yn dirprwyo swyddogaethau i'r Bwrdd Gweithredol, gall y Bwrdd Gweithredol ddirprwyo ymhellach i bwyllgor o'r Bwrdd Gweithredol neu i swyddog.
- (c) Oni bai fod yr Arweinydd yn cyfarwyddo fel arall, gall pwyllgor o'r Bwrdd Gweithredol y dirprwyd swyddogaethau iddo gan yr Arweinydd ddirprwyo ymhellach i swyddog.
- (d) Hyd yn oed lle bo swyddogaethau gweithredol wedi eu dirprwyo, nid yw'r ffaith honno yn atal cyflawni swyddogaethau wedi eu dirprwyo gan y person neu'r corff a'u dirprwyodd.

### **1.4 Cynllun dirprwyo a swyddogaethau gweithredol y Cyngor**

- (a) Yn ddarostyngedig i (b) isod bydd cynllun dirprwyo'r Cyngor yn amodol ar gael ei fabwysiadu gan y Cyngor a gellir ei ddiwygio gan y Cyngor yn unig. Bydd yn cynnwys y manylion sy'n ofynnol yn Erthygl 7 ac a nodwyd yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn.
- (b) Os yw Arweinydd y Cyngor yn gallu penderfynu p'un ai dirprwyo swyddogaethau gweithredol ai peidio, gall ef/hi newid y cynllun dirprwyo sy'n ymwneud â swyddogaethau gweithredol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, rhaid i'r arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr ac i'r person, y corff neu'r pwyllgor dan sylw. Rhaid i'r rhybudd gyflwyno maint y newid i'r cynllun dirprwyo, a nodi a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth oddi wrth unrhyw berson, corff, pwyllgor neu'r weithrediaeth yn gyffredinol. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor yn cyflwyno'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.
- (c) Lle bo'r Arweinydd yn ceisio tynnu dirprwyaeth oddi wrth bwyllgor, bernir bod rhybudd wedi ei roi i'r pwyllgor hwnnw pan fo ef/hi wedi ei roi i'w gadeirydd.

### **1.5 Gwrthdaro Buddiannau**

- (a) Lle bo gan yr Arweinydd fuddiannau'n gwrthdaro dylid ymdrin â hynny fel y nodir yng Nghôd Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, a geir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.
- (b) Os oes gan bob aelod o'r weithrediaeth fuddiannau'n gwrthdaro, dylid ymdrin â hyn fel y nodir yng Nghôd Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, a geir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.
- (c) Os yw ymarfer swyddogaeth weithredol wedi ei ddirprwyo i bwyllgor o'r weithrediaeth, aelod unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu swyddog, ac os bydd buddiannau'n gwrthdaro, ymarferir y swyddogaeth gan y person neu'r corff a wnaeth y dirprwyo.

### **1.6 Cyfarfodydd y weithrediaeth – pryd a ble?**

Bydd y weithrediaeth yn cyfarfod o leiaf 12 o weithiau'r flwyddyn ar adegau ac mewn lleoliadau i'w cytuno gan y Prif Weithredwr.

## **1.7 Cworwm.**

Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol, neu bwyllgor ohono, fydd 4 aelod.

## **1.8 Sut mae penderfyniadau i gael eu cymryd gan y weithrediaeth?**

- (a) Cymerir penderfyniadau gan y Bwrdd Gweithredol a gafodd eu dirprwyo i'r Bwrdd Gweithredol yn ei gynswth mewn cyfarfod a gynullir yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad.
- (b) Lle bo penderfyniadau gweithredol yn cael eu dirprwyo i bwyllgor o'r Bwrdd Gweithredol, bydd y rheolau sy'n berthnasol i benderfyniadau gweithredol a gymerir ganddynt yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i'r rhai a gymerir gan y weithrediaeth yn gyffredinol.

## **2. SUT Y CYNHELIR Y CYFARFODYDD GWEITHREDOL?**

### **2.1 Pwy sy'n llywyddu?**

Os yw'r Arweinydd yn bresennol bydd ef/hi yn llywyddu. Yn ei (h)absenoldeb, bydd Dirprwy Arweinydd yn llywyddu. Os na fydd yr Arweinydd na'r Dirprwy Arweinydd yn bresennol, bydd y rhai sy'n bresennol yn penodi rhywun yn llywydd.

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar sut bydd y Cadeirydd yn dewis ymarfer pleidlais fwrw.

### **2.2 Pwy all fod yn bresennol?**

(i) Bydd cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd ac i aelodau eraill o'r awdurdod yn ddarostyngedig i'r rheolau mynediad at wybodaeth a nodir yn Rhan 4 o'r cyfansoddiad hwn.

(ii) Gall Aelodau'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol fynd i gyfarfodydd agored y Bwrdd Gweithredol a gallant siarad yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

(iii) Mae gan 'Gynorthwyr i'r Weithrediaeth', nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol, yr hawl i fynychu, a siarad yn, unrhyw gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol neu unrhyw Bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol (dod i rym ar 5 Mai 2022).

(iv) Ni all Aelodau'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol fynd i sesiynau caeedig y Bwrdd Gweithredol, ond bydd y Bwrdd Gweithredol yn caniatáu'r Arweinydd a Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid a Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i fynd i'r sesiynau caeedig hynny yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

**2.3 Pa fusnes?  
Ym mhob un o gyfarfodydd y weithrediaeth cyflawnir y busnes canlynol:**

- (i) ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- (ii) datganiadau o fuddiant, os oes rhai;
- (iii) cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd;
- (iv) materion a gyfeiriwyd at y weithrediaeth naill ai gan bwyllgor craffu neu gan y Cyngor i'w hailystyried gan y weithrediaeth yn unol â'r darpariaethau a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefn Craffu neu Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a gyflwynir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn;
- (v) ystyried adroddiadau gan bwyllgorau craffu; a
- (vi) materion a roddir ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

**2.4 Ymgynghori**

Rhaid i'r holl adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol gan unrhyw aelod o'r weithrediaeth neu swyddog ynghylch cynigion yn ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi, gynnwys manylion am natur a chwmpas yr ymgynghori â rhanddeiliaid a phwyllgorau craffu perthnasol, a chanlyniad yr ymgynghori hwnnw. Bydd adroddiadau am faterion eraill yn cyflwyno manylion a chanlyniad yr ymgynghori fel y bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n angenrheidiol yn briodol i natur y mater o dan ystyriaeth.

**2.5 Pwy all roi eitemau ar agenda'r weithrediaeth?**

Bydd yr Aweinydd a/neu'r Prif Weithredwr yn penderfynu ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol.

**2.6 Cwestiynau gan Aelodau'r Cyhoedd**

Mae darpariaethau Rheol 10 o Weithdrefn y Cyngor o ran hawl y cyhoedd i holi cwestiynau i'r weithrediaeth yn berthnasol i gyfarfodydd y weithrediaeth.

**2.7 Ffilmio a Recordio Cyfarfodydd**

Heblaw am rannau o'r cyfarfod lle mae aelodau o'r cyhoedd wedi cael eu gwahardd o dan Reol 19 o Weithdrefn y Cyngor, bydd cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn cael eu gwe-ddarlledu.. Yn ogystal, bydd darpariaeth Rheol 22 o Weithdrefn y Cyngor o ran ffilmio a recordio cyfarfodydd gan aelodau'r cyhoedd yn berthnasol i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol.